# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 26 Medi 2018 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Martyn Holland (Is-Gadeirydd), Alan James, Barry Mellor (Cadeirydd) a Joe Welch

Aelod Lleyg Paul Whitham

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol.

Arsylwr: Y Cynghorydd Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid (RW), Prif Archwilydd Mewnol (LL), Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes (AS), Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (GL), Swyddog Arweiniol – Rheoli Asedau Strategol (TB), Swyddog Arweiniol – Contractau a Chyfleusterau (NH), Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol (GD), Rheolwr Glanhau – Glanhau Cyfleusterau Cyhoeddus / Eiddo Gwag (MJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru - Anthony Veale, Gwilym Bury a Gareth Evans.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Tony Flynn.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr Aelod Lleyg Paul Witham gysylltiad personol yn Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen – Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol - gan fod ei wyres yn ddisgybl mewn ysgol sy'n cael ei chrybwyll yn yr adroddiad.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2018.

Eitem Rhif 9 ar y Rhaglen - Archwiliad Mewnol o Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion - Dywedodd yr Aelodau y dylid cywiro brawddeg yn y cofnodion i

‘cyfrifoldeb llywodraethwyr yr ysgol yw llywodraethu iechyd a diogelwch mewn ysgolion’ yn hytrach na’r hyn sydd wedi’i nodi yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir.*

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad, ac Asedau Strategol yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Dywedodd yr Aelod Arweiniol mai ‘melyn’ oedd yr asesiad cyffredinol ar gyfer y tîm iechyd a diogelwch, gyda hanes da o waith iechyd a diogelwch yn Sir Ddinbych.

Tywysodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yr aelodau drwy Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch gan roi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar reolaeth Iechyd a Diogelwch yn y Cyngor o safbwynt y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
Dywedodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod yr adroddiad yn darparu crynodeb blynyddol o’r materion a nodwyd ac a drafodwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y mater canlynol yn fanylach:-

Ystadegau Damweiniau -

Cadarnhaodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bod cyfathrebu gyda swyddogion a gweithwyr Sir Ddinbych i roi gwybod am ddamweiniau wedi parhau. Mae nifer y damweiniau sy’n cael eu hadrodd wedi cynyddu gan fod mwy o unigolion a thimau yn rhoi gwybod i’r tîm iechyd a diogelwch am ddamweiniau. Rhoddwyd cyngor a chyfarwyddyd i ysgolion ar sut i roi gwybod am ddamweiniau. Yr ysgol oedd yn parhau i fod yn gyfrifol am roi gwybod am ddamweiniau. Gwelwyd nifer uchel o ddamweiniau yng Nghanolfan Nova ym Mhrestatyn gan fod staff wedi rhoi gwybod am yr holl ddamweiniau a ddigwyddodd. Roedd y mwyafrif o’r damweiniau a nodwyd wedi digwydd yn y ganolfan chwarae i blant. Cadarnhaodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ei fod yn falch o weld bod damweiniau yn cael eu hadrodd gan fod hyn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar y broses. Roedd gwaith wedi parhâi i sicrhau'r maes parcio aml-lawr yn Ninbych. Diweddarwyd y systemau Teledu Cylch Caeedig ac roedd y lefelau isaf y maes parcio yn cael eu cloi gyda’r nos i atal unigolion rhag cael mynediad i'r safle. Roedd gwaith â’r tîm maes parcio wedi parhau.
Roedd gwaith hefyd wedi parhau i wella diogelwch Llyfrgell Y Rhyl. Gwelwyd cynnydd yn nifer y damweiniau ar y safle yn dilyn cyflwyniad siop yn alwad a swyddfa refeniw a budd-daliadau. Roedd gwaith gyda’r heddlu a phreswylwyr lleol wedi dechrau.
Roedd llawer o waith yn ymwneud ag iechyd a diogelwch mewn ysgolion wedi parhau. Roedd ymweliadau safle wedi parhau mewn ysgolion ac fe gyflwynwyd canllawiau ar gyfer prif athrawon. Cynigodd yr aelodau y dylid anfon llythyr i’r holl ysgolion i dynnu sylw at bwysigrwydd rhoi gwybod am ddamweiniau ac i gynnal perthynas waith gadarnhaol gyda’r tîm iechyd a diogelwch yn Sir Ddinbych. Hefyd

mewn ymateb i adroddiad yr Adain Archwilio Mewnol ar Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol am yr adroddiad ac am yr ymatebion clir i gwestiynau'r aelodau.

***PENDERFYNWYD,***

- *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad, yn nodi'r cynnwys ac yn cefnogi cynllun gwaith y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2017/18, a*
- *bod llythyr yn cael ei anfon at ysgolion i dynnu sylw at yr angen i roi gwybod am ddamweiniau.*

**6 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – YMHOLIADAU ARCHWILIO BLYNYDDOL 17/18**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad Ymholiadau Archwilio 2017/18 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi gwybod i'r Aelodau am ymateb y Cyngor.

Roedd gan Swyddfa Archwilio Cymru, fel archwilwyr allanol penodedig Cyngor Sir Ddinbych, ddyletswydd i gasglu tystiolaeth am sut mae rheolwyr a'r unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu (Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol) yn cyflawni eu dyletswyddau i atal a chanfod twyll.

Mae manylion o ymatebion y rheolwyr (Pennaeth Cyllid) a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (Cadeirydd y Pwyllgor) wedi eu nodi fel atodiad i'r adroddiad.

Yn gryno, roedd yr ymatebion yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at y meysydd canlynol o lywodraethu:

- Prosesau rheoli sydd ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
- Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
- Prosesau i gael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- A oes unrhyw ymgyfreithiad posibl neu hawliadau a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.
- Prosesau i adnabod, awdurdodi, cymeradwyo, cyfrif am a datgelu trafodion partïon cysylltiedig a pherthnasoedd.

Eglurodd Anthony Veale, cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru, gyfrifoldeb y Swyddfa i ofyn cwestiynau ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Cadarnhawyd ni chodwyd unrhyw fater gyda'r ymatebion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Adran Gyllid ac i Swyddfa Archwilio Cymru am eu gwaith.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gadarnhau yn ffurfiol yr ymatebion sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 7 CYMERADWYO DATGANIAD CYFRIFON

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad a Chynllunio Strategol adroddiad Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2017/18 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y cyngor.

Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar gyfer 2017/18, yn amodol ar archwiliad, gan y Pennaeth Cyllid ar 15 Mehefin 2018. Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 11 Gorffennaf 2018 ac roeddent yn agored i'w arolygu'n gyhoeddus o 9 Gorffennaf - 3 Awst 2018.

Tywysodd y Pennaeth Cyllid yr aelodau drwy'r adroddiad a diolchodd i'r swyddogion a'r timau am y gwaith a wnaed i gwblhau'r cyfrifon yn unol â'r terfynau amser newydd. Roedd gwaith wedi parhau i wella'r Gofrestr Asedau i wella a sicrhau gweithdrefn gadarn yn y dyfodol.

Adleisiodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru y ganmoliaeth a llongyfarchodd swyddogion am y gwaith a oedd wedi'i gwblhau. Cyflwynodd Anthony Veale, cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiadau Archwilio Datganiadau Ariannol – Swyddfa Archwilio Cymru. Rhoddodd wybod i'r aelodau am y broses a'r amserlen wrth lunio'r adroddiadau. Nodwyd bod yr holl argymhellion wedi cael eu cynnwys o fewn yr adroddiad, yn cynnwys y gwaith ar y Gofrestr Asedau a nodwyd y cynnydd hyd yma. Nodwyd y materion yn ymwneud â'r Gofrestr Asedau a sefydlwyd cynllun gwaith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ac yn ystod trafodaethau nododd yr aelodau bwysigrwydd y terfynau amser newydd a'r anawsterau a wynebir wrth geisio sicrhau bod y terfynau amser hyn yn cael eu dilyn yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd sylwadau gan y cyhoedd wedi'u derbyn eleni. Roedd ymrwymiadau cyllideb i'r Cynllun Corfforaethol blaenorol wedi'u storio yng nghronfeydd wrth gefn y Cynllun Corfforaethol a byddent yn aros yno nes bod eu hangen o un flwyddyn i'r llall. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â safle'r 'Travelodge' yn y Rhyl. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod rhaid cynnal cyllid i gwblhau gwaith ar y safle i'w ddatblygu er mwyn sicrhau bod lefelau llifogydd yn ddigonol ar gyfer gwaith. Roedd y obeithiol y byddai modd adennill arian am y tir drwy rent.

Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad ar ran y Pwyllgor am y gwaith a wnaed gan y Swyddogion Cyllid a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mynegodd y Pennaeth Cyllid ei ddiolch i Anthony Veale, Swyddfa Archwilio Cymru. Rhoddwyd wybod i aelodau na fyddai Anthony yn cynrychioli Swyddfa Archwilio Cymru yn Sir Ddinbych mwyach. Rhoddwyd canmoliaeth iddo am ei gyfraniadau i'r Pwyllgor a dymunwyd y gorau iddo yn ei swydd newydd.

Diolchodd Anthony Veale i'r pwyllgor am y gefnogaeth yr oedd wedi'i derbyn yn ystod y cyfnod a fu'n gweithio ochr yn ochr ag aelodau a swyddogion.

***PENDERFYNWYD:***

I. *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon 2017/18 sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad a*

II. *bod y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid yn arwyddo'r Cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau*

**8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR BROSES Y GYLLIDEB**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad, a Chynllunio Strategol yr adroddiad Proses y Gyllideb (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Cadarnhaodd, dros y 12 mis diwethaf, fod 4 sesiwn i friffio'r aelodau ar y gyllideb wedi'u cynnal. Tywysodd yr Aelod Arweiniol yr aelodau drwy'r adroddiad, nodwyd y dylid sefydlu Bwrdd i,

- Ddiffinio a darparu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hyd at ddiwedd 2022/23.
- Sicrhau y gellir gosod cyllideb gytbwys ar gyfer bob blwyddyn ariannol o fewn y rhaglen.
- Cefnogi darpariaeth Blaenoriaethau Corfforaethol.
- Darparu dull a reolir i ddatblygu cyngor llai wedi'i redeg yn dda

Penderfynwyd cyfeirio ar y bwrdd fel Bwrdd Ail-lunio'r Cyngor. Cynhwyswyd cylch gorchwyl y bwrdd fel atodiad 1 i'r adroddiad. Mae'r bwrdd nad yw'n gwneud penderfyniadau yn cynnwys uwch swyddogion ac aelodau arweiniol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y Bwrdd wedi'i greu i sicrhau bod Sir Ddinbych yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r adroddiad yn darparu aelodau â throsolwg o'r broses. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y bwrdd neu'r broses yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor o bryd i'w gilydd.

Gofynnodd yr Aelodau i gael trefnu dyddiad ar gyfer y sesiwn friffio arfaethedig nesaf a rhannu'r dyddiad hwnnw cyn gynted ag y cytunwyd arno.

Croesawodd y Cadeirydd a'r aelodau'r adroddiad a diolch i'r swyddogion am eu gwaith hyd yma.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Ar yr adeg hon (11.05am) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.15 a.m.

**9 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Cyflwynodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ac eglurodd ei gynnwys. Eglurodd bod yr adroddiad

wedi'i greu i grynhoi'r gwaith archwilio a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnwys astudiaethau ar Lywodraethu, Rheoli Gwybodaeth a defnydd adnoddau. Mae'r adroddiad ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch y Cyngor ac nid yw'n cynnwys unrhyw argymhelliad sylweddol ar gyfer newid. Ymhelaethodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru ar y cynigion ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Cytunodd yr aelodau y dylid monitro'r cynigion ar gyfer gwella.
Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol yn fanylach -

- Tamprwydd a chyddwysiad mewn eiddo – tynnwyd sylw at waith pellach i'r maes cymhleth o damprwydd a chyddwysiad mewn eiddo. Awgrymodd aelodau y dylid cyflwyno adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Adolygiad Safbwynt Defnyddiwr Gwasanaeth' yng nghyfarfod nesaf y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion i'w drafod ymhellach. Croesawodd y Swyddog Tai'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe gadarnhaodd bod gwaith wedi dechrau i fynd i'r afael â'r amodau yr oedd y gymuned wedi rhoi gwybod amdanynt.
- Gwaith aelodau'r Cabinet – Tynnodd aelodau sylw at waith aelodau'r Cabinet a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cabinet. Trafodwyd sylwadau o ran y gwahaniaeth yn nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd gan wahanol aelodau o'r Cabinet. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad wedi'i drafod gan yr Arweinydd yng nghyfarfod diwethaf Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgor Craffu gan ei fod yn ymwneud â chraffu. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod yr Arweinydd wedi trafod yr adroddiad gydag aelodau'r Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i Swyddfa Archwilio Cymru ac i swyddogion am gyflwyno'r adroddiad Gwaith Blynyddol.

***PENDERFYNWYD,***

*I. bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, a*

*II. bod 'Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad Safbwynt Defnyddiwr Gwasanaeth' yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion i'w drafod ymhellach.*

## 10 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd y Tîm Archwilio Mewnol o ran cyflwyno gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth sbarduno gwelliant.
Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am waith yr Adain Archwilio Mewnol ers y cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Roedd yn galluogi'r Pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodebau o'i adroddiadau.
Tywysodd y Prif Archwilydd Mewnol yr aelodau drwy'r adroddiadau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hyd at fis Medi 2018 ar -

- Adroddiadau'r Adain Archwilio Mewnol a gyflwynwyd yn ddiweddar h.y. Gwasanaethau Arlwyo;
- Cynnydd gwaith Archwilio Mewnol hyd yma yn 2018-19;
- Cynnydd gyda gwaith gwrth-dwyll;

- Canlyniadau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17; a
- Diweddariad ar berfformiad yr Adain Archwilio Mewnol yn erbyn safonau gosod.

Trafodwyd y materion canlynol yn fanylach –

- Y lefel o wiriadau sampl ar y system VERTO –cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol nad oedd cyfyngiad wedi'i osod ar nifer y samplau a wiriwyd.
- Ysgolion gyda thystysgrifau cronfa ysgol gwirfoddol – roedd paratoadau o ran ymweliadau ysgolion wedi dechrau. Eglurodd y Prif Archwilydd Mewnol, oherwydd newidiadau staffio roedd gan ysgolion dystysgrifau a oedd yn ddyledus ers tro, rhai ers 2011. Byddai adroddiad cryno yn cael ei gyflwyno yn ôl i'r pwyllgor yn dilyn cwblhad yr ymweliadau.
- Roedd croesgyfeirio a monitro'r cynllun gostyngiad person sengl ar gyfer treth y cyngor wedi parhau. Cytunodd yr aelodau ei fod yn parhau i fod yn faes anodd ei reoli.
- Twyll tenantiaeth tai – cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol bod gwaith ar dwyll twyll tenantiaeth wedi'i drefnu ar gyfer eleni.
- Prydau ysgol am ddim mewn ysgolion – roedd tîm wedi'i sefydlu i drafod a gweithio gydag ysgolion a rhieni gydag ôl-ddyledion yn ymwneud â phrydau ysgol. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol bod gwaith i leihau'r lefel o ôl-ddyledion yn parhau. Byddai plant yn yr ysgolion yn parhau i gael prydau bwyd. Roedd yr aelodau'n falch o weld bod gwaith gydag ysgolion a rhieni wedi'i fabwysiadu i leihau ôl-ddyledion.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol y wybodaeth ddiweddaraf ar ganllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Pwyllgorau Archwilio. Tywyswyd aelodau drwy gyflwyniad PowerPoint o'r cynnydd a wnaed hyd yma. Cadarnhawyd bod:

- Gweithgor Canllawiau CIPFA wedi cwrdd ym mis Mehefin 2018
- Hunanasesiad wedi'i ddosbarthu ymhlith aelodau'r pwyllgor a bod yr ymatebion wedi'u derbyn.
- Adolygiad o'r cylch gorchwyl – cymharu'r telerau presennol â'r telerau a argymhellwyd gan CIPFA.

Roedd yr aelodau'n falch o dderbyn y diweddariad a'r wybodaeth hyd yma. Byddai gwybodaeth a diweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno i aelodau yn ôl y galw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Archwilydd Mewnol am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau o ran y cynnydd hyd yma.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn adroddiad diweddaru'r Adain Archwilio Mewnol ac yn nodi'r cynnwys, ac yn nodi cynnwys y diweddariad CIPFA.*

## 11 ADRODDIAD DIWEDDARU – CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i aelodau ynglŷn â gweithredu'r cynllun gweithredu a oedd yn cyd-fynd â’r adroddiad Archwilio Mewnol ar Gyfleusterau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2018.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut yr oedd y Cyngor yn gweithredu gwelliannau i Gyfleusterau Cyhoeddus. Mae'r cynllun gweithredu dilynol i’r Archwiliad Mewnol (a geir yn Atodiad 1) yn dangos bod cynnydd da wedi ei wneud wrth weithredu ar y materion a’r risgiau a nodwyd yn yr Archwiliad Mewnol.
Mae’r pedwar mater a godwyd yn yr Archwiliad gwreiddiol bellach wedi’u datrys yn llwyddiannus. Mae’r gwelliannau a wnaed i drefniadau casglu incwm, cysoni a diogelwch hefyd yn golygu bod y risg o dwyll yn digwydd neu’n digwydd heb i neb sylwi wedi’i lleihau, a rhoddwyd canllawiau ar waith i gyfeirio arferion cywir.

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol bod gwelliannau wedi’u gwneud a bod hynny wedi arwain at gynnydd yn sgôr sicrwydd Archwilio Mewnol o isel’ i 'uchel'.

Roedd yr aelodau'n falch o’r cynnydd a wnaed. Rhoddwyd canmoliaeth am y gwaith caled a wnaed i wella cyfleusterau cyhoeddus yn dilyn yr adroddiad. Cadarnhawyd bod polisïau a gweithdrefnau newydd wedi’u cynhyrchu a’u rhannu â swyddogion.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad diweddaru a nodi’r cynnwys.*

## 12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddosbarthwyd eisoes) i’w hystyried.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr Aelodau o bosib y byddai’n rhaid gohirio’r Adroddiad RIPA Blynyddol a oedd i’w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Roedd dull newydd o asesu wedi’i gyflwyno, a olygai o bosib na fyddai’r wybodaeth berthnasol ar gyfer yr adroddiad ar gael erbyn y cyfarfod nesaf. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai cadarnhad yn cael ei roi yn nes at ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru bod y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2019 yn unol â’r dyddiadau terfynol ar gyfer cymeradwyo datganiad cyfrifon ond byddai’n rhaid eu monitro a’u diwygio yn y blynyddoedd nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12:35 p.m.